
# Ymchwil Ysbrydol Randalph a'i Chwiliad am Ystyr




# Canllaw i Athrawon

# Ymchwil Ysbrydol Randalph a'i Chwiliad am Ystyr

# Canllaw i Athrawon

Tania ap Siôn
Darluniwyd gan Phillip Vernon

Bear Lands Publishing

Cyhoeddwyd gan Bear Lands Publishing
Canolfan y Santes Fair
Llys Onnen
Abergwyngregyn
Gwynedd
LL33 0LD
Cymru

Nodir Tania ap Siôn a Phillip Vernon
fel awduron y gwaith hwn.
Cyfieithwyd gan Nant Roberts.

©Hawlfraint y Goron 2019.

Cyhoeddwyd gyntaf 2019.

Noddir gan Lywodraeth Cymru.

# CYNNWYS


| | | |
|---|---|---|
| Rhagair | | |
| 1 | Cyflwyno Addysg Grefyddol | 1 |
| 2 | Addysg Grefyddol yn y Dyniaethau | 3 |
| 3 | Cysyniadau ac Addysg Grefyddol | 5 |
| 4 | Iaith Addysg Grefyddol | 7 |
| 5 | Cyflwyno Randalph Ddoeth | 9 |
| 6 | Adnoddau'r llyfrau stori | 11 |
| 7 | Dod ag ymchwil i'r ystafell ddosbarth | 15 |
| | Dod ag Iechyd ac Iachâd | 15 |
| | Gofalu am y Dyfodol | 16 |
| | Byw gyda Natur | 17 |
| | Mynd ar Deithiau Ysbrydol | 19 |
| | Cofio'r Gorffennol | 20 |
| | Gwasanaethu Eraill | 22 |
| Atodiad – | Y Ddarpariaeth Gyfreithiol ar gyfer Addysg Grefyddol yng Nghymru | 24 |


**Nodwch: Bydd adrannau'n cael ei diweddaru pan gyhoeddir y Cwricwlwm i Gymru 2022 yn 2020.**

## RHAGAIR

Adnodd a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru yw'r gyfres *Ymchwil Ysbrydol Randalph a'i Chwiliad am Ystyr*, adnodd sy'n cefnogi Addysg Grefyddol ar gyfer dysgwyr 8 i 11 oed yn y Cwricwlwm i Gymru 2022.

Nod y dull pedagogaidd a amlygir yn y gyfres hon yw ysbrydoli athrawon i fod yn greadigol ac yn hyderus wrth ddatblygu Addysg Grefyddol ystyrlon a heriol yng nghwricwlwm yr ysgol. Wedi'i llunio ar gyfer y cyd-destun dysgu newydd yng Nghymru (lle mae athrawon ac ysgolion yn cael mwy o ymreolaeth wrth drefnu'r cwricwlwm a dewis cynnwys) mae dull agored, seiliedig ar ymholiad, y gyfres *Ymchwil Ysbrydol Randalph a'i Chwiliad am Ystyr* yn ei gwneud yn berthnasol i Addysg Grefyddol ledled ysgolion yng Nghymru, yn ogystal â Lloegr a thu hwnt.

Mae Canolfan y Santes Fair, Cymru, yn cymryd rhan weithredol mewn ymchwil academaidd yn ymwneud â phobl ifanc, crefydd ac addysg, ac mae'r arbenigedd hwn yn llywio ymarfer yn ein holl brosiectau datblygu cwricwlwm, gan gynnwys y gyfres *Ymchwil Ysbrydol Randalph a'i Chwiliad am Ystyr*.

Rwy'n ddiolchgar i'r ymgynghorwyr academaidd a phroffesiynol a gefnogodd ddatblygiad y gyfres hon trwy eu cyngor, eu mewnwelediadau beirniadol a'u hadolygiad cymheiriaid, i Nant Roberts a weithiodd ar rifynnau Cymraeg yr adnoddau, i Tomos ap Siôn a greodd y ffilmiau ar gyfer y gyfres a rhoi ei ganiatâd i ni ddefnyddio ei gerddoriaeth wreiddiol, ac i Phillip Vernon a ddaeth â Randalph Ddoeth yn fyw gyda'i ddarluniau a'i ddyluniad.

Tania ap Siôn
Canolfan y Santes Fair
Llys Onnen
Abergwyngregyn
Gwynedd LL33 0LD

www.st-marys-centre.org.uk

Medi 2019

# 1 CYFLWYNO ADDYSG GREFYDDOL

**Cyflwyniad**
Mae darparu Addysg Grefyddol mewn ysgolion gwladol yng Nghymru a Lloegr wedi bod yn ofyniad statudol ers Deddf Addysg 1944. Dros y blynyddoedd, lluniwyd dulliau a chynnwys mewn Addysg Grefyddol i adlewyrchu newidiadau cymdeithasol ac addysgeg ac arferion cyffredinol mewn addysg. Mae datblygiadau o'r fath yn sicrhau bod Addysg Grefyddol yn parhau i fod yn hawl addysgol arwyddocaol a pherthnasol i bob dysgwr.

**Cwricwlwm i Gymru 2022**
Heddiw, mae Addysg Grefyddol yng Nghymru yn parhau i gael ei siapio mewn ymateb i'r Cwricwlwm i Gymru 2022. Yma, gall Addysg Grefyddol wneud cyfraniadau nodedig at y *pedwar diben*, sy'n ceisio sicrhau bod plant a phobl ifanc yn datblygu:

- yn ddysgwyr uchelgeisiol, galluog sy'n barod i ddysgu drwy gydol eu hoes;
- yn gyfranwyr mentrus, creadigol sy'n barod i chwarae eu rhan yn llawn yn eu bywyd a'u gwaith;
- yn ddinasyddion egwyddorol, gwybodus yng Nghymru a'r byd;
- yn unigolion iach, hyderus sy'n barod i fyw bywyd gan wireddu eu dyheadau fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas.

(*Dyfodol llwyddiannus,* 2015, t.29)

Gall Addysg Grefyddol wneud cyfraniadau nodedig hefyd i Faes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau y mae wedi'i lleoli ynddo. Yn ogystal, gall yr Addysg Grefyddol y mae dysgwyr yn ei phrofi gael ei chyfoethogi gan y ffocysau a'r perthnasoedd sy'n bresennol yn y Cwricwlwm i Gymru 2022, wrth i ddysgu ddod yn fwy cysylltiedig a chyfannol. Fodd bynnag, mae yna heriau gwirioneddol, fel yr angen i ddatblygu'r math cywir o adnoddau o ansawdd i gefnogi ysgolion yn eu trefniant o'r Maes Dysgu a Phrofiad yn y Dyniaethau a'u dewis o gynnwys sy'n briodol i'w lleoliad.

Mae'r gyfres *Ymchwil Ysbrydol Randalph a'i Chwiliad am Ystyr* wedi cael ei datblygu i ysgogi creadigrwydd a syniadau o fewn Maes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau trwy ddarlunio cyfleoedd rhyngddisgyblaethol naturiol gan ddefnyddio enghreifftiau o fannau lleol yng Nghymru. Yn ganolog i'r gyfres mae parch at yr ymreolaeth broffesiynol sy'n ofynnol gan athrawon ac ysgolion i gyflwyno Cwricwlwm i Gymru 2022 ac i ddarparu Addysg Grefyddol gysylltiedig, ystyrlon ynddo.

**Pontio 2008 a 2022**

Wrth i Addysg Grefyddol yng Nghymru gael ei siapio i chwarae ei rhan yn y Cwricwlwm i Gymru 2022, o safbwynt cyfreithiol mae *meysydd llafur cyfredol cytûn lleol* yn dal i bennu Addysg Grefyddol ym mhob awdurdod lleol. Hyd nes y cynhyrchir neu y mabwysiadir meysydd llafur newydd cytûn lleol, mae'r meysydd llafur cytûn lleol hyn yn adlewyrchu Addysg Grefyddol o fewn y Cwricwlwm i Gymru 2008 (gweler atodiad am y ddarpariaeth gyfreithiol ar gyfer Addysg Grefyddol yng Nghymru). Mae meysydd llafur cytûn lleol ar gael ar wefan Cymdeithas CYSAGau Cymru (www.wasacre.org.uk) yn ogystal â chan bob awdurdod lleol.

Gyda chyflwyniad graddol y Cwricwlwm i Gymru 2022, bydd angen i feysydd llafur cytûn lleol ar gyfer Addysg Grefyddol yng Nghymru roi sylw dyledus i'r Cwricwlwm i Gymru 2022 a'r 'Fframwaith ar gyfer Addysg Grefyddol' (a gyhoeddwyd yn 2020)

Adnodd anrhagnodol, yn seiliedig ar ymholiadau, yw'r gyfres *Ymchwil Ysbrydol Randalph a'i Chwiliad am Ystyr*, sy'n golygu y gellir ei defnyddio i gefnogi Addysg Grefyddol mewn sawl ffordd wahanol. Mae hyblygrwydd cynhenid y gyfres yn ei gwneud yn adnodd pontio defnyddiol oherwydd ei bod yr un mor berthnasol i'r Cwricwlwm i Gymru 2008 a'r Cwricwlwm i Gymru 2022.

Y bwriad yw y dylid defnyddio'r gyfres *Ymchwil Ysbrydol Randalph a'i Chwiliad am Ystyr* ar y cyd â'r:

- meysydd llafur statudol cytûn lleol ar gyfer Addysg Grefyddol ac unrhyw ddeunydd canllaw atodol;
- y canllawiau ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru 2022, gan gynnwys y canllawiau statudol ar gyfer Maes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau (cyhoeddwyd 2020);
- 'Y Fframwaith ar gyfer Addysg Grefyddol' (cyhoeddwyd 2020).

## 2 ADDYSG GREFYDDOL YN Y DYNIAETHAU

Yn y Cwricwlwm i Gymru 2022, mae Addysg Grefyddol wedi'i lleoli o fewn Maes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau, ochr yn ochr â Daearyddiaeth, Hanes, Astudiaethau Busnes ac Astudiaethau Cymdeithasol. Gall Addysg Grefyddol ymgysylltu'n ystyrlon hefyd â meysydd dysgu a phrofiad eraill (er enghraifft, Iechyd a Lles). Dylai pob maes dysgu a phrofiad a'u disgyblaethau pwnc ategu *pedwar diben* y cwricwlwm (tudalen 1).

Mae'r enghreifftiau canlynol o ffocysau allweddol ym Maes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau yn nodi'n ddefnyddiol yr hyn sydd dan sylw o ran y 'Dyniaethau' yn y Cwricwlwm i Gymru 2022.

**Rhai ffocysau allweddol:**

- "Mae Maes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau yn ymwneud â gofyn cwestiynau am y cyflwr dynol."
- "Bydd y Dyniaethau yn cynnig cyfleoedd i bob dysgwr ddysgu am ei dreftadaeth ac ymdeimlad o le drwy astudio ei gynefin a Chymru … [yn ogystal â'r] ffordd y mae pobl Cymru, ei chymunedau, ei diwylliant, ei thirwedd, ei hadnoddau a'i diwydiannau yn ymwneud â gweddill y byd."
- Yn y Dyniaethau, bydd dysgwyr "yn ymholi ac yn ymchwilio", "yn gwerthuso amrywiol fydolygon ac yn ffurfio eu dehongliadau eu hunain", "yn mynd i'r afael â materion", "yn cael gwahoddiad i weithredu'n gymdeithasol", "gan sicrhau eu bod bob amser yn ystyried goblygiadau egwyddorol eu dewisiadau".

*Dyniaethau: Canllawiau statudol drafft ar gyfer maes dysgu a phrofiad*
Ebrill 2019 (t.3)

Mae dysgu a phrofiad yn y Dyniaethau (Cwricwlwm i Gymru 2022) wedi'u strwythuro o amgylch pum datganiad Yr Hyn sy'n Bwysig yn y Dyniaethau, sy'n nodi'r prif bethau y mae'n ymwneud â nhw. Wrth gynllunio ar gyfer dysgu, mae perthnasoedd *o fewn* a *rhwng* y datganiadau Yr Hyn sy'n Bwysig hyn i'w cydnabod a'u harchwilio.

**Datganiadau Yr Hyn sy'n Bwysig yn y Dyniaethau:**

- Mae datblygu meddwl ymholgar yn galluogi dysgwyr i archwilio ac ymchwilio i'r byd, i'w orffennol, ei bresennol a'i ddyfodol, drostynt eu hunain;
- Mae digwyddiadau a phrofiadau dynol yn gymhleth a chânt eu canfod, eu dehongli a'u cynrychioli mewn gwahanol ffyrdd;
- Mae'r byd naturiol yn amrywiol a deinamig, ac mae dylanwad prosesau ffisegol a gwerthoedd dynol arno;
- Mae cymdeithasau dynol yn gymhleth ac yn amrywiol, ac maent yn cael eu llywio gan weithredoedd a chredoau pobl;
- Mae dinasyddion gwybodus, hunanymwybodol yn mynd i'r afael â'r heriau a'r cyfleoedd sy'n wynebu dynoliaeth, ac yn gallu cymryd camau ystyrlon, egwyddorol a chynaliadwy.

Dyniaethau: Canllawiau statudol drafft ar gyfer maes dysgu a phrofiad
Ebrill 2019 (tt.6-8)

Mae'r gyfres *Ymchwil Ysbrydol Randalph a'i Chwiliad am Ystyr* yn ceisio dangos bod gan Addysg Grefyddol lawer i'w gynnig i Faes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau yn ogystal â chael ei chyfoethogi trwy ymgysylltu â disgyblaethau pwnc eraill o fewn y Dyniaethau.

Y nod sydd wrth wraidd y gyfres *Ymchwil Ysbrydol Randalph a'i Chwiliad am Ystyr* yw rhoi hyder i ddysgwyr ac athrawon ofyn cwestiynau heriol ac ymgysylltu'n barchus ag amrywiaeth a chymhlethdod yr ymatebion iddynt, sy'n parhau i ysgogi trywyddau ymholi newydd. Mae'r gyfres yn hyrwyddo dull 'ymchwilgar' o ddysgu, sy'n cydnabod nad oes atebion syml, a gwahoddir dysgwyr i fynd ar siwrnai gydol oes.

**Nodwch: Bydd yr adran hon yn cael ei diweddaru pan gyhoeddir y Cwricwlwm i Gymru 2022 yn 2020.**

# 3 CYSYNIADAU AC ADDYSG GREFYDDOL

Yn nogfen ganllaw'r Dyniaethau ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru 2022, mae pwyslais ar archwilio 'cysyniadau' yn y Dyniaethau. Mae pob un o'r pum datganiad rhyng-gysylltiedig Yr Hyn sy'n Bwysig yn y Dyniaethau yn nodi cysyniadau allweddol i'w harchwilio o safbwyntiau Addysg Grefyddol, Daearyddiaeth, Hanes, Astudiaethau Busnes ac Astudiaethau Cymdeithasol.

Mae pob disgyblaeth pwnc o fewn y Dyniaethau yn gallu cynnig cyfraniad sylweddol at archwilio cysyniadau'r Dyniaethau ynghyd â'u safbwyntiau a'u pwyslais unigryw eu hunain.

Mae'r gyfres *Ymchwil Ysbrydol Randalph a'i Chwiliad am Ystyr* yn darparu cyfleoedd i athrawon a dysgwyr archwilio'r cysyniadau hyn o safbwyntiau sy'n berthnasol i Addysg Grefyddol yn ogystal â disgyblaethau pwnc eraill. Wrth siapio'r cwricwlwm ar gyfer eich cyd-destun dysgu eich hun, gallai fod yn ddefnyddiol nodi'r cyfleoedd, eglur ac ymhlyg, sydd yn straeon Randalph Ddoeth i archwilio cysyniadau perthnasol.

**Datganiad 1 Yr Hyn sy'n Bwysig:** Mae datblygu meddwl ymholgar yn galluogi dysgwyr i archwilio ac ymchwilio i'r byd, i'w orffennol, ei bresennol a'i ddyfodol, drostynt eu hunain.

Yn y datganiad hwn am yr hyn sy'n bwysig, dylai dysgwyr gael cyfleoedd i archwilio **cysyniadau** gan gynnwys: cwestiynu, tystiolaeth, dilysrwydd, dibynadwyedd, rhagfarn, moeseg a barnau.

**Datganiad 2 Yr Hyn sy'n Bwysig**: Mae digwyddiadau a phrofiadau dynol yn gymhleth, a chânt eu canfod, eu dehongli a'u cynrychioli mewn gwahanol ffyrdd.

Yn y datganiad hwn am yr hyn sy'n bwysig, dylai dysgwyr gael cyfleoedd i archwilio **cysyniadau** gan gynnwys: ceisio ystyr, cwestiynau eithaf ac athronyddol, sylwadau, safbwyntiau, dehongliadau hanesyddol, arwyddocâd, dilysrwydd a llunio barn.

**Datganiad 3 Yr Hyn sy'n Bwysig:** Mae'r byd naturiol yn amrywiol a deinamig, ac mae dylanwad prosesau ffisegol a gwerthoedd dynol arno.

Yn y datganiad hwn am yr hyn sy'n bwysig, dylai dysgwyr gael cyfleoedd i archwilio **cysyniadau** gan gynnwys: lle, gofod, amgylchedd, prosesau ffisegol, arwyddocâd, achos ac effaith, a newid a pharhad.

**Datganiad 4 Yr Hyn sy'n Bwysig:** Mae cymdeithasau dynol yn gymhleth ac yn amrywiol, ac maent yn cael eu llywio gan weithredoedd a chredoau pobl.

Yn y datganiad hwn am yr hyn sy'n bwysig, dylai dysgwyr gael cyfleoedd i archwilio **cysyniadau** gan gynnwys: cronoleg, newid a pharhad, amrywiaeth, achos ac effaith, cydgysylltiad, cymuned, hunaniaeth a pherthyn, awdurdod a llywodraethu.

**Datganiad 5 Yr Hyn sy'n Bwysig**: Mae dinasyddion gwybodus, hunanymwybodol yn mynd i'r afael â'r heriau a'r cyfleoedd sy'n wynebu dynoliaeth, ac yn gallu cymryd camau ystyrlon, egwyddorol a chynaliadwy.

Yn y datganiad hwn am yr hyn sy'n bwysig, dylai dysgwyr gael cyfleoedd i archwilio **cysyniadau** gan gynnwys: cynaliadwyedd economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol, dinasyddiaeth, pŵer ac awdurdod, cydgysylltiad, cyfiawnder a chydraddoldeb, hawliau, a gweithredu a chyfrifoldeb cymdeithasol.

*Dyniaethau: Canllawiau statudol drafft ar gyfer maes dysgu a phrofiad*
Ebrill 2019

Mae'n bwysig parhau i ddychwelyd at y cysyniadau hyn, fel bod dysgwyr yn cael cyfleoedd i'w deall a'u gwerthfawrogi mewn ffyrdd newydd a chyda mwy o ehangder a dyfnder wrth iddynt symud ymlaen trwy eu haddysg.

**Nodwch: Bydd yr adran hon yn cael ei diweddaru pan gyhoeddir y Cwricwlwm i Gymru 2022 yn 2020.**

# 4 IAITH ADDYSG GREFYDDOL

Er y gellir ymdrin ag addysg a'i phrofi mewn ffyrdd integredig, cyfannol, dylid cydnabod bod gan wahanol ddisgyblaethau pwnc eu hiaith eu hunain ar gyfer trafod cysyniadau sy'n arwyddocaol iddyn nhw. Fodd bynnag, nid oes unrhyw iaith yn statig; gall terminoleg, ystyr a mynegiant newid dros amser ac ymhlith gwahanol grwpiau am amryw resymau.

Mae rhan bwysig o addysg yn ymwneud â dysgu iaith y gwahanol ddisgyblaethau pwnc, ac mae hyn yn cynnwys Addysg Grefyddol.

Mae dysgu iaith Addysg Grefyddol yn galluogi dysgwyr i:

- gydnabod trafodaeth sy'n gysylltiedig â phrofiadau, credoau, ac arferion byw crefyddol ac anghrefyddol (gan gynnwys dimensiynau ysbrydol);
- deall trafodaeth sy'n berthnasol i Addysg Grefyddol ac ymwneud â hi mewn ffyrdd ystyrlon;
- cyfrannu safbwyntiau sy'n berthnasol i brofiadau, credoau, ac arferion byw crefyddol ac anghrefyddol (gan gynnwys dimensiynau ysbrydol) at drafodaethau ehangach.

Wrth siapio'r cwricwlwm ar gyfer eich cyd-destun dysgu eich hun, gallai fod yn ddefnyddiol nodi yn y gyfres *Ymchwil Ysbrydol Randalph a'i Chwiliad am Ystyr* y cyfleoedd eglur ac ymhlyg sydd ar gyfer defnyddio ac archwilio iaith Addysg Grefyddol mewn deialog â chysyniadau'r Dyniaethau.

Amlygir un dull o nodi cyfleoedd ar gyfer defnyddio ac archwilio iaith berthnasol Addysg Grefyddol yn nheitl y llyfr stori, *Dod ag Iechyd ac Iachâd*. Nodir termau a themâu 'cyffredinol' cyntaf sydd o ddiddordeb eang i Addysg Grefyddol. Yn ail, nodir termau a themâu 'penodol' sy'n rhan o drafodaeth ddyfnach o fewn Addysg Grefyddol. Nid yw'r enghreifftiau a awgrymir yn gyflawn, ac fe fyddan nhw'n ymwneud â sut y defnyddir y llyfr stori yng nghyd-destun eich ystafell ddosbarth.

**Enghraifft: *Dod ag Iechyd ac Iachâd***

**Gall termau a themâu 'cyffredinol' gynnwys:**

awdurdod
briwedig / cyfanrwydd
tosturi
gwrthdaro / heddwch
iachâd
iechyd
taith
bywyd a marwolaeth
materol / ysbrydol
atgofion / cofio
lle
perthnasoedd
maddeuant
cymod
parch
defod
lle diogel
cysegredig / seciwlar
symbol
traddodiad
ymchwil
doethineb

**Termau a themâu 'penodol' (wedi'u tynnu o'r 'cyffredinol') sy'n rhan o'r drafodaeth ddyfnach, er enghraifft:**

eneinio
Beibl
croes
eglwys
goleuedigaeth
guru
eiconograffi
gweddïau
goleuni / tywyllwch
myfyrdod
dameg
pererindod
gweddi
offeiriad
creiriau
sacrament
sant
iachawdwriaeth
cysegr
cysegrfan
teml
Fedâu
addoli
ioga

# 5 CYFLWYNO RANDALPH DDOETH

Adnodd a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru yw'r gyfres *Ymchwil Ysbrydol Randalph a'i Chwiliad am Ystyr,* a ddyluniwyd i gefnogi athrawon ac ysgolion wrth iddyn nhw ddarparu Addysg Grefyddol ar gyfer dysgwyr 8 i 11 oed. Mae'r gyfres yn ystyried pwysigrwydd lle (a chynefin) o ddifrif, ac mae'n seiliedig ar ymchwil helaeth i'r ffordd y mae plant yn dysgu amdanyn nhw eu hunain, am eraill, ac am y byd y maen nhw'n byw ynddo.

**Am beth mae'r gyfres yn sôn?**

Mae'r storïau'n adrodd hanes cymeriad nodweddiadol hynafol o'r enw Randalph Ddoeth, sy'n chwilio am atebion i'r cwestiwn mawr iawn. Mae eisiau gwybod, 'Beth sydd *wir* yn bwysig?' Mae'r cwestiwn hwn yn mynd â Randalph Ddoeth ar siwrnai drwy Gymru. Ar ei deithiau, mae'n dod o hyd i rai lleoedd a phobl arbennig i'w helpu gyda'i ymchwil. Mewn sawl ffordd, dim ond dechrau siwrnai yw hyn, wrth i Randalph Ddoeth herio ei ddarllenwyr i ymwneud â'r cwestiwn mawr iawn eu hunain, ac i gychwyn ar eu teithiau newydd eu hunain.

Yn y llyfrau stori mae chwe thema (neu feysydd profiad) yn dod i'r amlwg fel meysydd o ddiddordeb arwyddocaol i'r ystod amrywiol o bobl y mae Randalph Ddoeth yn cwrdd â nhw ar ei deithiau. Mae'r themâu hyn yn cynnwys:

- Dod ag Iechyd ac Iachâd
- Gofalu am y Dyfodol
- Byw gyda Natur
- Mynd ar Deithiau Ysbrydol
- Cofio'r Gorffennol
- Gwasanaethu Eraill

**Yr adnoddau**

Gellir llwytho'r gyfres i lawr am ddim o wefan Hwb Llywodraeth Cymru a gwefan Canolfan y Santes Fair. Mae'r gyfres yn cynnwys:

- *chwe llyfr stori*, pob un yn archwilio un o themâu "Beth sydd *wir* yn bwysig?" trwy ymgysylltu â mannau a phobl yng Nghymru;
- *chwe ffilm wedi'u gosod i gerddoriaeth*, un ar gyfer pob llyfr stori, yn dod â dysgwyr i gyswllt agosach â lle ac yn ysgogi myfyrio pellach ynglŷn â'r thema "Beth sydd *wir* yn bwysig?";
- *chwe thrac sain cerddoriaeth*, y gall dysgwyr ac athrawon eu defnyddio wrth greu eu ffilmiau eu hunain am eu mannau lleol eu hunain;
- y *Canllaw i Athrawon* hwn, sy'n darparu rhywfaint o wybodaeth

sylfaenol am Addysg Grefyddol ac sy’n gwneud cysylltiadau ag adnoddau eraill o gymorth i ddysgwyr ac athrawon wrth iddyn nhw archwilio'r adnoddau yn y gyfres.

Argymhellir eich bod yn llwytho’r adnoddau i lawr cyn eu defnyddio er mwyn osgoi unrhyw faterion cysylltiad rhyngrwyd. Ffeiliau pdf yw’r llyfrau stori a’r canllaw i athrawon (ewch i ‘View’ i gael sioe sleidiau, tudalen sengl, gwylio dwy dudalen ac ati); ffeiliau MP4 yw’r ffilmiau (ar wahân i *Dod ag Iechyd ac Iachâd* a *Byw gyda Natur*, sy’n ffeiliau MOV); a ffeiliau MP3 yw’r ffeiliau cerddoriaeth.

# 6 ADNODDAU'R LLYFRAU STORI

**Teithiau Randalph Ddoeth**

Ar ei deithiau, mae Randalph ddoeth yn dod ar draws llawer o wahanol fannau a phobl. Mae'n chwilio am atebion, ac fel gydag unrhyw ymchwil bwysig mae'r hyn y mae'n ei ddarganfod yn gymhleth ac yn rhan o siwrnai gydol oes. Wrth i ddarllenwyr deithio gyda Randalph Ddoeth o amgylch Cymru, fe fyddan nhw'n sylwi bod pob taith llyfr stori yn dilyn yr un patrwm, er bod yr hyn y mae Randalph Ddoeth yn ei ganfod yn aml yn anrhagweladwy ac yn peri syndod.

**Y patrwm sylfaenol**

*Y Dechrau* – Mae pob llyfr stori yn dechrau trwy atgoffa'r darllenwyr sut y dechreuodd ymchwil ysbrydol Randalph a'i chwiliad am ystyr. Yn gynnar un bore, roedd Randalph yn eistedd yn ei ystafell yn meddwl am y cwestiwn mawr iawn, 'Beth sydd wir yn bwysig?' Yn sydyn, fe sylweddolodd, er mwyn dod o hyd i atebion i'r cwestiwn hwn, y byddai angen iddo adael diogelwch ei ystafell ei hun ac ymgysylltu ag eraill yn y byd. Heb wybod beth y gallai ei ganfod, mae Randalph yn gwisgo ei gôt a'i het, yn codi ei fag, yn gafael yn ei ffon, ac yn cychwyn ar ei daith.

*Pennod 1* – Mae Randalph yn teithio i fan a fydd yn ganolbwynt i benodau 2-5.

*Penodau 2-5* – Ymhob pennod, mae Randalph yn sylwi'n ofalus ar agwedd ar y lle hwn ac yn gwylio unigolyn neu unigolion yno. Yna, mae'n mynd at yr unigolyn neu'r unigolion, ac yn gofyn iddyn nhw, "Beth sy'n wir yn bwysig i chi yma?" Ar ôl ymateb i gwestiwn Randalph, a chysylltu â 'thema' teitl y llyfr, maen nhw'n rhoi anrheg i Randalph. Mae'n rhoi'r anrheg yn ei fag cyn mynd ymlaen ar ei daith. Ar ddiwedd pennod 5, mae Randalph yn ffurfiol yn cydnabod y 'thema' fel rhywbeth sydd wir yn bwysig yn y lle hwn. Fodd bynnag, mae'n awyddus i deithio ymhellach ac yn ddyfnach, gan ofyn, "Beth mae pobl eraill mewn lleoedd gwahanol yn ei ddweud am hyn?"

*Penodau 6 a 7* – Ymhob pennod, mae Randalph yn teithio i le gwahanol iawn. Unwaith eto, mae'n dechrau trwy sylwi ar ei amgylchoedd cyn mynd at unigolyn neu unigolion i ofyn yn uniongyrchol iddyn nhw beth sydd ganddyn nhw i'w ddweud am y 'thema' y mae wedi'i chanfod. Ar ôl ymateb i gwestiwn Randalph trwy archwilio'r thema o'u persbectif uniongyrchol eu hunain, maen nhw hefyd yn rhoi anrheg i Randalph, y mae'n ei roi yn ei fag cyn mynd ymlaen ar ei daith.

Mae'r dudalen, *Allwch chi helpu Randalph?* yn gwahodd darllenwyr i ymwneud â'r stori fel cyfranogwyr. Yma, cyflwynir cyfres o gwestiynau sy'n annog darllenwyr: i awgrymu lleoedd eraill y gallai Randalph ymweld â nhw; i fyfyrio ar yr ymatebion y mae Randalph wedi'u derbyn a'r 'thema' a nodwyd; i ystyried sut mae'r 'thema' yn ymwneud â'u bywydau eu hunain; ac i gynnig eu hanrhegion eu hunain i Randalph eu rhoi yn ei fag ochr yn ochr â'r anrhegion eraill i gyd.

*Mynd yn ei ôl adref* - Daw pob llyfr stori i ben wedyn gyda Randalph yn mynd yn ei ôl adref yn hwyr yn y nos, wedi blino ar ôl ei daith. Mae bag Randalph yn cynnwys yr holl anrhegion y mae eraill wedi'u rhoi iddo mewn ymateb i'w sgwrs â nhw, a'u cysylltiad nhw ag yntau. Yn barchus ac yn ofalus, mae Randalph yn dadbacio'i fag ac yn gosod yr anrhegion o'i flaen, ac yn gofyn y cwestiwn mawr iawn unwaith eto. Y tro hwn, "fe gafodd ateb gan yr *holl* bethau yr oedd wedi eu casglu ar ei daith". Yna, mae Randalph yn cadarnhau 'thema' y llyfr stori fel rhywbeth sydd wir yn bwysig trwy ei brofiad o deithio ledled Cymru. Fodd bynnag, Randalph fyddai'r cyntaf i ddweud na all y 'thema', y lleoedd, na'r bobl fyth gael eu cyfyngu i ddim ond ei brofiadau ef a'r anrhegion y mae wedi'u gosod o'i flaen.

**Dull amlweddog**

Mae dull amlweddog wedi'i ymgorffori yn y llyfrau stori er mwyn i athrawon a dysgwyr gael mynediad ato, naill ai'n ymhlyg neu'n benodol, wrth iddyn nhw weithio'n agos â'r gyfres.

Yn y llyfrau stori, nod Randalph Ddoeth yw anelu at:

- annog dysgwyr i ofyn cwestiynau mawr am eu bywydau eu hunain a'r byd dynol a di-ddynol y maen nhw'n byw ynddo;
- enghreifftio dull ymholi i ddysgwyr sy'n cydnabod nad oes atebion syml ac mae'r hyn sy'n ymddangos yn atebion fel arfer yn rhannol, ac yn codi cwestiynau newydd;
- cyflwyno dysgwyr i bwysigrwydd ymholiad parchus sy'n agored, yn sylwgar, yn gwrando ac yn fyfyriol (mae *man cychwyn* Randalph yn ceisio osgoi ymgysylltiad beirniadol rhagdybiedig);
- dangos i ddysgwyr fod gan fannau ffisegol fywyd y tu hwnt i'r bobl hynny sy'n eu canfod ar un foment mewn amser – mae eu natur yn gymhleth ac maen nhw'n fwy na dim ond 'adnoddau';
- annog dysgwyr i ymgysylltu â lleoedd a phobl go iawn yn eu hardal, yng Nghymru, ac yn y byd ehangach fel rhan o ddysgu sut i ddeall eu hunain a'r byd y maen nhw'n byw ynddo;

- cynnig cyfle i ddysgwyr archwilio eu hymateb eu hunain ac ymateb pobl eraill i gwestiynau mawr sy'n cael eu codi gan Addysg Grefyddol a'r disgyblaethau pwnc eraill o fewn y Dyniaethau yn ogystal â'r cwricwlwm ehangach;
- ysbrydoli a grymuso dysgwyr i gymryd rhan weithredol yn eu cymunedau a'r gymdeithas ehangach mewn ffyrdd gwybodus, ystyrlon ac adeiladol.

**Enghreifftio thema**
Mae pob un o'r chwe llyfr stori yn canolbwyntio ar 'thema' sy'n deillio o brofiadau byw pobl o le yng Nghymru. Caiff y 'thema' hon ei harchwilio wedyn o ddau safbwynt arall, gan fynd â'r darllenydd y tu allan i Gymru yn aml am ran o'r daith. Mae'r 'themâu' yr un mor berthnasol i agweddau crefyddol ac agweddau seciwlar ar brofiadau byw, ac yn darparu cyfleoedd i archwilio cyflwr dynol a rennir.

Mae'r lleoedd a'r bobl sydd wedi'u cynnwys yn y llyfrau stori yn rhai o lawer y gellid bod wedi'u dewis; maen nhw'n cynnig mannau cychwyn ar gyfer canfod lleoedd a chwrdd â phobl eraill sydd hefyd â rhywbeth unigryw ac arwyddocaol i'w gyfrannu at y 'thema'. Mae'n bwysig, felly, parhau i ymchwilio mewn ymateb i'r llyfrau stori a gwneud cysylltiadau sy'n berthnasol i'ch cyd-destun dysgu lleol, trwy ofyn:

- Pa leoedd crefyddol a seciwlar y gallwn i eu harchwilio yn fy ardal sydd hefyd yn enghreifftio'r 'thema' hon?
- Beth sy'n cael ei ddatgelu gan ymateb pobl o wahanol enwadau neu draddodiadau o fewn crefyddau, neu wahanol ymatebion seciwlar?
- Ydw i'n ymdrin â'r 'thema' mewn ysbryd darganfod, ac a oes newid pwyslais ar fy nealltwriaeth ar y siwrnai hon?

Yn ogystal, gan fod y gyfres wedi'i chreu i gefnogi dysgu mewn Addysg Grefyddol o fewn cyd-destun y 'Dyniaethau', mae llawer o gyfleoedd rhyngddisgyblaethol wedi'u hymgorffori ym mhob llyfr stori, gan eu bod yn digwydd yn naturiol yn y lleoedd yr ymwelwyd â nhw. Mae'n bosib nodi a datblygu'r rhain yn unol ag anghenion eich cyd-destun dysgu lleol eich hun.

Yn y tabl hwn mae trosolwg o themâu a lleoliadau'r llyfrau stori.

| Teitl / Thema | Lleoliad | Mynd yn ddyfnach |
|---|---|---|
| *lleoliadau anghrefyddol* | | |
| Gofalu am y Dyfodol | Canolfan y Dechnoleg Amgen, Machynlleth | • Bwdhyddion yn plannu coed<br>• mosg |
| Byw gyda Natur | Gardd Fotaneg Treborth, Bangor | • mynwent Gristnogol<br>• gardd Sikhaidd |
| Cofio'r Gorffennol | Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru | • cartref Iddewig<br>• eglwys Anglicanaidd |
| *lleoliadau crefyddol* | | |
| Dod ag Iechyd ac Iachâd | Eglwys Gysegrfan Santes Melangell, Pennant Melangell | • teml Fwdhaidd<br>• ioga glan-môr (Hindŵaidd) |
| Mynd ar Deithiau Ysbrydol | Ynys Enlli | • taith Fwslimaidd (Makkah)<br>• taith Hindŵaidd (Varanasi) |
| Gwasanaethu Eraill | Sikhiaid ar y stryd/gurdwaras – de Cymru | • eglwys gadeiriol<br>• mosg/cartref Mwslimaidd |

# 7 RHAI CYSYLLTAU DEFNYDDIOL

Yn yr adran hon darperir rhai cysylltau defnyddiol fel man cychwyn ar gyfer archwilio'r llyfrau stori yn fwy manwl.

## Dod ag Iechyd ac Iachâd

Cyfres Grefyddau'r Byd Heddiw (Eglwys y Plwyf, yr Eglwys Uniongred, Bwdhaeth, Hindŵaeth, Iddewiaeth, Islam, Sikiaeth – gwybodaeth gefndir ddefnyddiol am grefyddau): llyfrau stori a llawlyfrau athrawon
(Hwb / Gwefan Canolfan y Santes Fair)
http://www.st-marys-centre.org.uk/resources/W-worldfaithstoday.html

Eglwys Santes Melangell a Chanolfan Santes Melangell
(gwefan sefydliad)
http://www.st-melangell.org.uk/cymraegindex.htm

Christian worship: prayer (BBC)
(gwefan sefydliad)
https://www.bbc.co.uk/bitesize/guides/zwkjpv4/revision/3

Modern pilgrims (Telegraph)
(gwefan sefydliad)
https://www.telegraph.co.uk/news/religion/7263957/Modern-pilgrims.html

Cysegrfa Ffynnon Gwenffrewi
(gwefan sefydliad)
https://www.stwinefrideswell.org.uk

BBC history documentary story of the Buddha's life
(YouTube)
https://www.youtube.com/watch?v=qvC0kIpk8nY

## Gofalu am y Dyfodol

(Gweler hefyd cysylltau *Byw gyda Natur*.)

Cyfres Grefyddau'r Byd Heddiw (Bwdhaeth, Islam, Iddewiaeth, Eglwys y Plwyf, yr Eglwys Uniongred, Hindŵaeth, Sikiaeth – pennodau yn cynnwys gofalu am y byd): llyfrau stori a llawlyfrau athrawon
(Hwb / Gwefan Canolfan y Santes Fair)
http://www.st-marys-centre.org.uk/resources/W-worldfaithstoday.html

Canolfan y Dechnoleg Amgen
(gwefan sefydliad)
https://www.cat.org.uk

Gwenyn Gwefreiddiol
(Hwb)
https://hwb.gov.wales/repository/resource/4cc933ed-3038-40a9-b2e9-7bd4a88e5238/cy

Coeden a choetiroedd – Pam fod coed yn bwysig?
(Hwb)
https://hwb.gov.wales/repository/resource/c060c272-0a25-4fa2-bcdf-385d5758678f/cy

What would carbon neutrality mean for the UK? – BBC
(gwefan sefydliad)
https://www.bbc.co.uk/bitesize/articles/zfw4f4j

Muslim Council of Britain: Eco-mosque workshop
(gwefan sefydliad)
https://mcb.org.uk/wp-content/uploads/2019/09/Eco-Mosque-Workshop-Slides-13-July-2019-v2.pdf

Environment Journal ('eco' mosque)
(gwefan sefydliad)
https://environmentjournal.online/articles/cambridges-burgeoning-muslim-community-to-benefit-from-new-eco-mosque/

Dalai Lama and the environment – Dalai Lama's website
(gwefan sefydliad)
https://www.dalailama.com/messages/environment

**Byw gyda Natur**

(Gweler hefyd cysylltau *Gofalu am y Dyfodol*.)

Cyfres Grefyddau'r Byd Heddiw (Eglwys y Plwyf, yr Eglwys Uniongred, Sikiaeth, Iddewiaeth, Islam, Hindŵaeth, Bwdhaeth – pennodau yn cynnwys gofalu am y byd): llyfrau stori a llawlyfrau athrawon
(Hwb / Gwefan Canolfan y Santes Fair)
http://www.st-marys-centre.org.uk/resources/W-worldfaithstoday.html

Gardd Botaneg Treborth
(gwefan sefydliad)
http://treborth.bangor.ac.uk/index.php.cy

'Britannia Bridge Fire' – Daily Post
(gwefan sefydliad)
https://www.dailypost.co.uk/news/nostalgia/moments-shocked-north-wales-britannia-3408566

Llwybr Arfordir Cymru – Cyfoeth Naturiol Cymru
(gwefan sefydliad)
https://www.walescoastpath.gov.uk/about-us/resources/reports/?lang=cy

The symbolic uses of plants (Academia)
(gwefan sefydliad)
https://www.academia.edu/7741957/The_Symbolic_Uses_of_Plants

A countryside for health and wellbeing report
(gwefan sefydliad)
http://www.docs.hss.ed.ac.uk/education/outdoored/health_wellbeing.pdf

Plantlife: Allweddi'r Coetiroedd
(Hwb)
https://hwb.gov.wales/search?query=Geography%20KS2&strict=true&popupUri=%2FResource%2F5f59fdc7-26d5-4443-a13e-30a0370e4087

Amgueddfa Cymru: y ddôl drefol, Caerdydd
(Hwb)
https://hwb.gov.wales/search?query=Geography%20KS2&strict=true&popupUri=%2FResource%2F0fe99457-8f63-4ab2-910a-1cf48dd92fdc

Alliance of Religions and Conservation
(gwefan sefydliad – archifwyd)
http://www.arcworld.org

Caring for God's Acre
(gwefan sefydliad)
https://www.caringforgodsacre.org.uk

Rainer Maria Rilke's poem 'Always Again' – Poetry in translation
(gwefan sefydliad)
https://www.poetryintranslation.com/PITBR/German/Rilkemorepoems.php

Sikhism and the environment – SikhiWiki
(gwefan sefydliad)
https://www.sikhiwiki.org/index.php/Sikhism_and_the_environment

## Mynd ar Deithiau Ysbrydol

Cyfres Grefyddau'r Byd Heddiw  (Eglwys y Plwyf, yr Eglwys Uniongred, Islam, Hindŵaeth, Iddewiaeth, Bwdhaeth, Sikiaeth – gwybodaeth gefndir ddefnyddiol am grefyddau): llyfrau stori a llawlyfrau athrawon
(Hwb / Gwefan Canolfan y Santes Fair)
http://www.st-marys-centre.org.uk/resources/W-worldfaithstoday.html

Ynys Enlli
(gwefan sefydliad)
https://www.bardsey.org

Galarnad Cwch Enlli – Amgueddfa Cymru
(gwefan sefydliad)
https://amgueddfa.cymru/casgliadau/caneuongwerin/?id=28&_ga=2.50528617.1501128082.1570533690-1157274130.1549703687

Bardsey and its inhabitants – Rhiw.com
(gwefan sefydliad)
http://www.rhiw.com/pobol/isaac_rowlands/bardsey.htm

Taith Pererin Gogledd Cymru
(gwefan sefydliad)
http://pilgrims-way-north-wales.org/hafan.html

Bywyd Mynach yn yr Oesoedd Canol
(Hwb)
https://hwb.gov.wales/repository/resource/bb6d51cc-bc85-4f25-95bc-d4f6a3077031/cy

A Hindu pilgrimage
(YouTube)
https://www.youtube.com/watch?v=j4ISnFCnGmg

What is Hajj?
(YouTube)
https://www.youtube.com/watch?v=Ok7-mB62xeE

Islam class clips – BBC
(gwefan sefydliad)
https://www.bbc.co.uk/bitesize/topics/zpdtsbk/resources/1

Llwybr Arfordir Cymru – Cyfoeth Naturiol Cymru
(gwefan sefydliad)
https://www.walescoastpath.gov.uk/about-us/resources/reports/?lang=cy

Teithiau ffydd – Croeso Cymru (Llywodraeth Cymru)
(gwefan sefydliad)
https://www.croeso.cymru/cy/ysbrydolwch-fi

## Cofio'r Gorffennol

Cyfres Grefyddau'r Byd Heddiw (Iddewiaeth, Eglwys y Plwyf, yr Eglwys Uniongred, Islam, Hindŵaeth, Bwdhaeth, Sikiaeth – pennodau yn cynnwys cysylltiadau â thraddodiadau): llyfrau stori a llawlyfrau athrawon
(Hwb / Gwefan Canolfan y Santes Fair)
http://www.st-marys-centre.org.uk/resources/W-worldfaithstoday.html

Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru
(gwefan sefydliad)
https://amgueddfa.cymru/sainffagan/?_ga=2.54545131.1501128082.1570533690-1157274130.1549703687

Tryweryn, the story of a valley
(gwefan Archif Genedlaethol Sgrin a Sain Cymru)
https://player.bfi.org.uk/free/film/watch-tryweryn-the-story-of-a-valley-1965-online

Boddi Cwm Tryweryn
(Hwb)
https://hwb.gov.wales/repository/resource/40071d2e-2f65-471b-9f8b-a940b48d8cad/cy

Cronfeydd Lesotho a Thryweryn
(Hwb)
https://hwb.gov.wales/repository/resource/52d2fbd9-387a-456e-8a6d-8aee9cd515bb/cy

Amser golchi
(Hwb)
https://hwb.gov.wales/repository/resource/19b07068-b9ff-4264-9db1-8d902a1be2c3/cy

What is Passover?
(YouTube)
https://www.youtube.com/watch?v=QF84Wx0dGTg

What is Passover? – BBC
(gwefan sefydliad)
https://www.bbc.co.uk/bitesize/topics/znwhfg8/articles/zn22382

Christianity class clips – BBC
(gwefan sefydliad)
https://www.bbc.co.uk/bitesize/topics/ztkxpv4/resources/2

What is holy communion?
(YouTube)
https://www.youtube.com/watch?v=fQq9WDIiZGc

The Reformation – BBC
(gwefan sefydliad)
https://www.bbc.co.uk/bitesize/guides/zrpcwmn/revision/1

## Gwasanaethu Eraill

Cyfres Grefyddau'r Byd Heddiw  (Sikiaeth, Eglwys y Plwyf, yr Eglwys Uniongred, Islam, Hindŵaeth, Bwdhaeth, Iddewiaeth – yn cynnwys pennodau ar ofalu am eraill): llyfrau stori a llawlyfrau athrawon
(Hwb / Gwefan Canolfan y Santes Fair)
http://www.st-marys-centre.org.uk/resources/W-worldfaithstoday.html

'An in-depth look at Welsh homelessness'
(YouTube)
https://www.youtube.com/watch?v=UV_kr8I0sR4

'Cardiff homeless man shares about criminalization of homelessness'
(YouTube)
https://www.youtube.com/watch?v=xXdGFjoc2zA

'Young Welsh and Homeless'
(YouTube)
https://www.youtube.com/watch?v=f_5WdkbcA4g

Evicted – the hidden homeless
(YouTube)
https://www.youtube.com/watch?v=p_XBgGEZwpkk

Food banks in Wales
(YouTube)
https://www.youtube.com/watch?v=nSnYxwCh9wY

Nishram SWAT – Sikh Welfare and Awareness Team
(gwefan sefydliad)
http://swatlondon.com/index.html

Sikh Sewa Organisation
(gwefan sefydliad)
http://sikhsewa.org.uk/

The Gurdwara
(YouTube)
https://www.youtube.com/watch?v=BjHfAuq1K8E

Who was Guru Nanak – BBC
(gwefan sefydliad)
https://www.bbc.co.uk/bitesize/topics/zsjpyrd/articles/zr86cqt

Sikhism class clips – BBC
(gwefan sefydliad)
https://www.bbc.co.uk/bitesize/topics/zsjpyrd/resources/1

Types of seva at the gurdwara
(YouTube)
https://www.youtube.com/watch?v=zi6i_fNEgZU

Ramadan
(Hwb)
https://hwb.gov.wales/repository/resource/796d0241-4763-4d13-8f31-c1c0486e66bc/cy

Ramadan and Eid-ul-Fitr
(YouTube)
https://www.youtube.com/watch?v=qFU9Cb0D6lo

What is Ramadan? – BBC
(gwefan sefydliad)
https://www.bbc.co.uk/bitesize/topics/zpdtsbk/articles/zjc2bdm

Muslim Aid
(gwefan sefydliad)
https://www.muslimaid.org/about-us/

Byddin yr Iachawdwriaeth – Digartrefedd
(gwefan sefydliad)
https://www.salvationarmy.org.uk/homelessness

# ATODIAD – Y DDARPARIAETH GYFREITHIOL AR GYFER ADDYSG GREFYDDOL YNG NGHYMRU

**Fframwaith cyfreithiol ar gyfer Addysg Grefyddol**

Yn unol â gofynion Deddf Diwygio Addysg 1988, rhaid i bob awdurdod lleol gynhyrchu neu fabwysiadu *maes llafur cytûn lleol* ar gyfer Addysg Grefyddol, a rhaid i'r maes llafur:

> adlewyrchu'r ffaith bod traddodiadau crefyddol Prydain yn Gristnogol yn bennaf, ac ar yr un pryd ystyried athrawiaeth ac arferion prif grefyddau eraill sy'n cael eu cynrychioli ym Mhrydain.

Ailddatganwyd y ddarpariaeth hon gan Ddeddf Addysg 1996, adran 375 (3). Mae hyn yn golygu bod Addysg Grefyddol yn cael ei *phennu'n lleol* gan bob awdurdod lleol trwy ddau gorff statudol sydd wedi'u sefydlu at y diben hwn:

- y Gynhadledd Sefydlog i gytuno ar y maes llafur lleol; a'r
- Cyngor Cynghori Sefydlog ar Addysg Grefyddol (CYSAG) i oruchwylio a chynnal gweithrediad y maes llafur lleol.

At hynny, ni ddylai meysydd llafur cytûn ddarparu ar gyfer Addysg Grefyddol trwy unrhyw gatecism neu fformiwlâu sy'n nodweddiadol o enwad crefyddol penodol, ond ni waherddir addysgu am gatecism neu fformiwlâu (Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion, 1998, adran 69 (2) ac Atodlen 19, paragraff 2 (5)). Nodwyd y prif ofynion ar gyfer Addysg Grefyddol yng nghylchlythyr 10/94 y Swyddfa Gymreig, Deddf Addysg 1996, a Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998.

Gyda chyflwyniad y Cwricwlwm i Gymru 2022, mae'n bwysig bod yn ymwybodol o unrhyw newidiadau cyfreithiol y gellid eu cyflwyno hefyd. Gellir cyrchu'r ffynonellau gorau ynghylch gwybodaeth am y gofynion cyfreithiol ar gyfer Addysg Grefyddol trwy:

- eich Cyngor Cynghori Sefydlog lleol ar gyfer Addysg Grefyddol (CYSAG) a'ch maes llafur cytûn lleol;
- Cymdeithas CYSAGau Cymru
- Canllawiau a gwybodaeth cwricwlwm Llywodraeth Cymru.

**Ysgolion â chymeriad crefyddol**

Gall y gofynion cyfreithiol ar gyfer Addysg Grefyddol mewn ysgolion sydd â chymeriad crefyddol fod yn wahanol i ysgolion cymunedol yng Nghymru:

- mewn *ysgolion a reolir yn wirfoddol ac ysgolion sylfaen sydd â*

*chymeriad crefyddol*, bydd Addysg Grefyddol fel rheol (oni bai bod y rhieni'n gofyn yn wahanol) yn cael ei haddysgu yn unol â'r maes llafur cytûn lleol;

- mewn *ysgolion a gynorthwyir yn wirfoddol*, fodd bynnag, rhaid addysgu Addysg Grefyddol yn unol â gweithred ymddiriedolaeth yr ysgol – yn ymarferol mae hyn yn golygu y bydd ysgol a gynorthwyir fel arfer yn defnyddio maes llafur sy'n adlewyrchu cymeriad crefyddol yr ysgol.

**Addysg Grefyddol yn y Cwricwlwm i Gymru 2008**

Fe wnaeth pob un o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru naill ai fabwysiadu neu addasu'r *Fframwaith enghreifftiol cenedlaethol ar gyfer cyflwyno addysg grefyddol i ddysgwyr 3 i 19 oed yng Nghymru* (2008) fel eu maes llafur cytûn, a sicrhau bod y dogfennau canllaw cenedlaethol ar gyfer Addysg Grefyddol ar gael i'w hysgolion lleol. Fodd bynnag, yn unol â'r cymeriad a'r ddarpariaeth leol ar gyfer Addysg Grefyddol, mae awdurdodau lleol yn ategu'r rhain lle bo angen gyda deunydd sy'n adlewyrchu anghenion penodol eu hardal.

Mae hyn wedi arwain, am y tro cyntaf ers sefydlu'r maes llafur cytûn lleol, at sefyllfa lle mae pob awdurdod lleol yng Nghymru yn rhannu fframwaith cyffredin ar gyfer Addysg Grefyddol sydd, ar gyfer cyfnodau allweddol 2 i 5, yn cael ei ddarparu trwy dair o sgiliau craidd rhyng-gysylltiedig, wedi'u mynegi fel: ymdrin â chwestiynau sylfaenol; archwilio credoau, dysgeidiaeth, ac arfer(ion) crefyddol; a mynegi ymatebion personol. Cymhwysir y sgiliau craidd hyn i 'ystod' o feysydd sy'n ymwneud â'r 'Byd', 'Profiad Dynol' a 'Chwilio am Ystyr', a'u gwahaniaethu yn ôl cyfnodau allweddol dysgu.

Yn yr un modd, mae Addysg Grefyddol statudol ar gyfer y cyfnod sylfaen yn cael ei darparu trwy'r *Fframwaith ar gyfer Dysgu Plant 3 i 7 oed yng Nghymru* (2008), sy'n canolbwyntio ar saith Maes Dysgu statudol: datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol; sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu; datblygiad mathemategol; datblygu'r Gymraeg; gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd; datblygiad corfforol; a datblygiad creadigol. Fel gyda'r cyfnodau allweddol eraill, cyflwynir y cwricwlwm yn nhermau 'sgiliau' ac 'ystod', fodd bynnag, mae'r addysgeg sydd wrth wraidd y cyfnod sylfaen yn canolbwyntio ar y plentyn, yn yr ystyr y gwelir bod plant yn dysgu orau wrth ymwneud â 'gweithgareddau arbrofol uniongyrchol' trwy chwarae. Mae'r Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol ar gyfer Addysg Grefyddol yng Nghymru (2008) yn deall bod Addysg Grefyddol yn ymwneud â phob un o'r saith Maes Dysgu yn y cyfnod sylfaen, ond mae'n nodi'n benodol y ffocws 'pobl, credoau

a chwestiynau', sy'n uniongyrchol gysylltiedig â Meysydd Dysgu am wybodaeth a dealltwriaeth o'r byd, datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol.

**Addysg Grefyddol yn y Cwricwlwm i Gymru 2022**

Wrth i ysgolion ac athrawon baratoi i gyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru 2022, mae'n bwysig cadw'n gyfoes â'r gofynion cyfreithiol ar gyfer Addysg Grefyddol yn ystod yr amser hwn o newid. Ar hyn o bryd, mae Llywodraeth Cymru wedi cynnull gweithgor i lunio 'Fframwaith ar gyfer Addysg Grefyddol' (gyda'r bwriad o gyhoeddi yn gynnar yn 2020).

Er bod Addysg Grefyddol yng Nghymru yn cael ei phennu'n lleol, bydd angen i awdurdodau lleol roi sylw dyledus i'r Cwricwlwm i Gymru 2022 a'r 'Fframwaith ar gyfer Addysg Grefyddol'. Dylai ysgolion ac athrawon fod yn ymwybodol o'r broses hon a sut mae'n effeithio ar Addysg Grefyddol yn eu lleoliad addysg.

**Nodwch: Bydd yr adran hon yn cael ei diweddaru pan gyhoeddir y Cwricwlwm i Gymru 2022 yn 2020.**

# Ymchwil Ysbrydol Randalph a'i Chwiliad am Ystyr

## Canllaw i Athrawon

Rhan o'r gyfres *Ymchwil Ysbrydol Randalph a'i Chwiliad am Ystyr* yw'r canllaw i athrawon, cyfres sy'n cynnwys chwe llyfr stori ar gyfer dysgwyr 8- i 11 oed ynghyd â ffilmiau ategol, a cherddoriaeth. Yn y gyfres, gwahoddir dysgwyr ac athrawon i fynd ar siwrnai trwy Gymru gyda Randalph Ddoeth er mwyn darganfod 'Beth sydd *wir* yn bwysig?' Ar y siwrnai hon, canfyddir chwe thema:

- Dod ag Iechyd ac Iachâd;
- Gofalu am y Dyfodol;
- Byw gyda Natur;
- Mynd ar Deithiau Ysbrydol;
- Cofio'r Gorffennol;
- Gwasanaethu Eraill.

Mae'r canllaw i athrawon yn darparu gwybodaeth allweddol am Addysg Grefyddol a'r cwricwlwm yn ogystal â'r gyfres llyfrau stori, ac yn cynnig rhai cysylltau defnyddiol i ddechrau archwilio'r llyfrau stori'n fwy manwl.

Mae'r gyfres wedi'i chreu i gefnogi dysgu mewn Addysg Grefyddol ym Maes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru 2022. Fel adnodd hyblyg ac anrhagnodol, mae hefyd yn berthnasol ar gyfer Addysg Grefyddol mewn llawer o gyd-destunau eraill.

Mae'r holl adnoddau yn y gyfres ar gael i'w llwytho i lawr am ddim o wefan Canolfan y Santes Fair a gwefan Hwb Llywodraeth Cymru.

Mae Tania ap Siôn yn Gyfarwyddwr Gweithredol Canolfan y Santes Fair, Cymru, ac yn Uwch Gymrawd Ymchwil Ôl-ddoethurol mewn crefyddau, dyniaethau ac addysg ym Mhrifysgol yr Esgob Grosseteste, Lincoln. Cyn hyn, roedd yn Athro Cysylltiol mewn Addysg ac Arwyddocâd Cymdeithasol Crefydd ym Mhrifysgol Warwick, ac mae hefyd wedi dal swyddi academaidd sy'n gysylltiedig â chrefydd ac addysg ym Mhrifysgol Glyndŵr a Phrifysgol Bangor. Mae Tania wedi cyhoeddi'n eang ym maes crefydd ac addysg yng Nghymru a Lloegr, ac yn awdur nifer o adnoddau cwricwlwm i gefnogi dysgu mewn Addysg Grefyddol. Mae hi hefyd yn un o'r 'arbenigwyr' yr ymgynghorwyd â nhw ar gyfer y 'Fframwaith Addysg Grefyddol' i'w ddefnyddio ochr yn ochr â'r Cwricwlwm i Gymru 2022.

Bear Lands Publishing